# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Wener 22ain o Fawrth 2024 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Geraint Evans, Arwel Pierce, Bethan Lawton

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard C Evans

2. Datgan diddordeb: Nid oedd yr un cynghorydd wedi datgan buddiant

3. Datganiadau Cyfrifyddu 2021/2022:

   Bu i'r Cygnor edrych yn fanwl ar gynnwys adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a manylion y cyfrifon. Nodwyd nad oedd yr adroddiad blynyddol wedi ei gyhoeddi ar wefan y cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

   **PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2021/2022.

4. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/2022:

   Nodwyd nad oedd y cyngor wedi rhoi cyfle i etholwyr archwilio'r cyfrifon.

   **PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/2022.
   Y Clerc i sicrhau bod y dogfennau ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.

5. Datganiadau Cyfrifyddu 2022/2023:

   Bu i'r Cyngor edrych yn fanwl ar gynnwys adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a manylion y cyfrifon. Nodwyd nad oedd yr adroddiad blynyddol wedi ei gyhoeddi ar wefan y cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

   **PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2022/2023.

6. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/2023:

   Nodwyd nad oedd y cyngor wedi rhoi cyfle i etholwyr archwilio'r cyfrifon.

   **PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/2023.
   Y Clerc i sicrhau bod y dogfennau ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:22pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................